



YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



26/2/21

I Sylw: Rhieni'r Cyfnod Sylfaen

Annwyl Rieni,

Yr wyf newydd dderbyn cadarnhad y caiff disgyblion y cyfnod sylfaen ddychwelyd i'r ysgol o ddydd Llun nesaf (Mawrth 1af) ymlaen.

Rwyf eisoes wedi rhannu ein bwriad ni fel ysgol efo chi ac felly bydd **pob disgybl y cyfnod sylfaen** yn dychwelyd i'r ysgol **ddydd Llun nesaf 1/3/21**. Rydym wedi sicrhau fod yr ysgol mor ddiogel â phosibl ac wedi addasu ein hasesiad risg i gyd-fynd â'r canllawiau gweithredol diweddaraf gan Lywodraeth Cymru.

Gan ei bod yn ddydd Gwyl Dewi ddydd Llun caiff y plant wisgo dillad eu hunain i ddathlu'r diwrnod e.e. dillad coch/gwyn/gwyrdd, daffodil, dillad Cymreig ayb.

I'ch atgoffa:

- Bydd y diwrnod ysgol yr un oriau â'r arfer sef 8.50am-3.00pm (Meithrin 8.50am-12.00pm Llun-lau).
- **Am y tro, ni fydd cinio ysgol yn cael ei ddarparu, felly bydd angen pecyn bwyd ar eich plentyn.**
- Bydd y Clwb Gofal Bore a'r Clwb Brecwast yn ail agor ddydd Llun 1/3/21. Mae'r Clwb Gofal Bore rhwng 7.50am a 8.15am – mae angen 'bwcio' a thalu ffi o £1.10 y dydd/y plentyn ar-lein ar School Gateway. Mae'r clwb brecwast am ddim yn cychwyn am 8.15am.
- Bydd y Clwb Hwyl (ar ôl ysgol) yn ail agor ddydd Llun. Cofiwch fod angen 'bwcio' o flaen llaw a thalu ar-lein ar School Gateway.
- Gan y bydd ffenestri'r dosbarthiadau ar agor i sicrhau awyru da, byddai'n syniad i'ch plentyn wisgo haenau o ddillad o dan ei siwmpwr ysgol
- Bydd rhaid i oedolion wisgo gorchudd wyneb pan ar safle'r ysgol
- Cadwch o leiaf 2m o bellter oddi wrth eraill, yn arbennig wrth ddod i nôl eich plentyn ddiwedd y dydd
- Peidiwch â loetran ar dir yr ysgol
- Bydd rhaid gollwng eich plentyn wrth giatiau'r iard rhwng 8.40yb-8.50yb. Bydd angen i'r plant fynd yn syth i'w dosbarth. Rhieni'r dosbarth Meithrin yn unig i gerdded gyda'u plentyn at ddrws y dosbarth os oes rhaid.
- Sicrhewch fod eich plentyn yn deall pwysigrwydd golchi ei (d)dwyllo yn rheolaidd.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, yna cysylltwch yn syth o.g.y.dd. Rydym wir yn edrych ymlaen at groesawu'r plant yn ôl!

Cofion,

Iwan Wyn Taylor
(Pennaeth)

pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk